

Pa ffynonellau gwybodaeth ydym ni'n cysylltu â?

- Ystadegau am Gyfnodau Gofal Cleifion mewn Ysbytai (HES)
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)
- Y Set Ddata Radiotherapi Genedlaethol (RTDS)
- Therapi Gwrth-ganser Systemig (SACT, y set ddata cemotherapi)
- Set ddata Canolfan Genedlaethol Ymchwil ac Archwilio Gofal Dwys (ICNARC)
- Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW)
- COSD (Set ddata Canlyniadau a Gwasanaethau Canser)
- Data cofrestru cancer
- Mesurau o'r Profiad a Gofnodwyd gan Gleifion (PREMS)

I gael rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am yr archwiliad, cysylltwch â ni (ar gael yn Saesneg yn unig).

www.digital.nhs.uk
enquiries@nhsdigital.nhs.uk
0300 303 5678



BRITISH SOCIETY OF
GASTROENTEROLOGY



Healthcare Quality
Improvement Partnership



Royal College
of Surgeons

ADVANCING SURGICAL CARE



The Royal College of Radiologists



Association of Upper Gastrointestinal Surgeons of
Great Britain and Ireland



The Oesophageal
Patients Association
Caring for the cancer patient and their family

Yr Archwiliad Canser Oesoffago-gastrig Cenedlaethol: Beth mae angen i chi ei wybod



Nod yr Archwiliad Canser Oesoffago-gastrig Cenedlaethol yw gwella gofal cleifion.

Drwy edrych ar beth sy'n cael ei wneud nawr, gall yr archwiliad awgrymu newidiadau er mwyn gwella'r gofal am bobl sydd â chanser oesoffagaidd a chanser y stumog yn y dyfodol.

Mae'r archwiliad yn cymharu'r gofal a gaiff cleifion cancer oesoffagaidd a chanser y stumog ledled Cymru a Lloegr. Un ffordd i wneud hyn yw edrych ar safon y gofal y mae cleifion yn ei gael a pha mor llwyddiannus yw eu triniaeth.

Pam y mae angen eich gwybodaeth arnom?

Bydd y wybodaeth a gesglir yn yr archwiliad yn helpu i:

- ganfod gwahaniaethau yn ansawdd y gofal a'r ddarpariaeth o wasanaethau ledled Cymru a Lloegr
- adnabod arferion da a'u rhannu â sefydliadau gofal iechyd eraill
- gwirio bod canllawiau cenedlaethol yn cael eu dilyn gan y GIG a sefydliadau eraill sy'n darparu gofal

Beth mae'r archwiliad yn ceisio ei ganfod?

Mae'r archwiliad yn cymharu'r gofal a gaiff cleifion cancer oesoffagaid a chanser y stumog ledled Cymru a Lloegr drwy edrych i weld:

- a yw'r gofal yn gyson â chanllawiau cenedlaethol
- pa mor llwyddiannus yw'r driniaeth
- gwahaniaethau mewn gofal ar draws rhanbarthau



Pa wybodaeth iechyd sy'n cael ei chasglu?

Mae'r archwiliad yn casglu gwybodaeth adnabyddadwy gan ysbytai am eich triniaeth cancer er mwyn tracio'ch gofal lle bynnag rydych yn ei gael.

Mae'r wybodaeth adnabyddadwy hon yn cael ei chysylltu â ffynonellau data eraill sydd wedi'u rhestru ar gefn y daflen hon.

Gallem ddarparu rhifau GIG i ysbytai fel y gallant gadarnhau bod y wybodaeth am y cleifion hynny yn gywir.


Mae'r data a gyhoeddir yn adroddiad yr archwiliad yn ddiennw, sy'n golygu na ellir gwybod pwy yw claf am fod ei wybodaeth bersonol wedi cael ei dileu.

Gallwch gael gwybod rhagor am y wybodaeth a gasglwn, eich hawliau a sut rydym yn gofalu am eich data yn: www.nogca.org.uk

Sut rydym yn cadw eich gwybodaeth yn ddiogel a chyfrinachol?

NHS Digital yw un o sefydliadau llywodraeth a sefydlwyd i gasglu ac astudio gwybodaeth am ofal iechyd a chymdeithasol.

Rhodddwyd caniatâd i NHS Digital i ddefnyddio a storio gwybodaeth cleifion er mwyn cyflawni'r archwiliad hwn yn unol â rheoliadau manwl o dan Ddeddfau Seneddol.



Cefnogi ymchwil

Gellir rhannu eich gwybodaeth ddiennw (anadnabyddadwy) ar gyfer ymchwil. Er enghraifft:

- Cyhoeddi papurau mewn cyfnodolion meddygol i ddarparu gwybodaeth i staff meddygol am y safonau gofal gorau.
- Darparu gwybodaeth i lywio polisi iechyd cyhoeddus, fel edrych ar yr effaith o wneud diagnosis yn gynnar.

Ble y gallaf weld adroddiadau'r archwiliad?

Mae'r archwiliad yn llunio adroddiad bob blwyddyn, yn ogystal ag adroddiadau arbennig eraill.

Mae'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan yn: www.nogca.org.uk

Eich hawl i wrthod

Os nad ydych yn dymuno i'ch gwybodaeth gael ei defnyddio yn yr archwiliad, cysylltwch â'n tîm ymholiadau (enquiries@nhsdigital.nhs.uk neu 0300 303 5678, ar gael yn Saesneg yn unig) a byddant yn egluro'r broses ar gyfer dileu'ch data.

Os byddwch wedi cofrestru penderfyniad i optio allan o ddata cenedlaethol, ni fydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio yn yr archwiliad.

Ni fydd hyn yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar eich gofal a'ch triniaeth.